**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Pleidleisio Absennol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Etholiadau ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Pleidleisio Absennol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol**
24 Chwefror 2026

# RHAN 1

**Disgrifiad**

1. Mae Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Pleidleisio Absennol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 ("y Rheoliadau") yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i bleidleiswyr wneud cais ar-lein, drwy system Ymgeisio Ar-lein am Bleidlais Absennol ("OAVA") sy'n gweithredu ar gyfer etholiadau seneddol y DU yng Nghymru, am bleidleisiau drwy'r post a phleidleisiau drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru o 3 Tachwedd 2026, a byddant yn galluogi system ymgeisio ar-lein gyfun ar gyfer pleidleiswyr yng Nghymru ar gyfer pob etholiad. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno gofyniad i ddarparu rhif yswiriant gwladol (neu ddogfennaeth ategol arall) i wneud cais am bleidlais absennol, gwirhau gwybodaeth a ddarperir mewn ceisiadau o'r fath (pa un a ydynt yn cael eu cyflwyno ar-lein ai peidio) a ffenestr ailymgeisio dair blynedd ar gyfer pleidleisiau drwy'r post.

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r trefniadau a manylion yn ymwneud â chyflawni'r camau i estyn y system OAVA i etholiadau Cymru. Mae hyn yn cynnwys gweithrediad y system, prosesau a gyflawnir gan Swyddogion Cofrestru ar gyfer adnabod pleidleiswyr, a'r trefniadau trosiannol i'w rhoi ar waith.

3. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud nifer o fân ddiwygiadau amrywiol a diwygiadau technegol amrywiol i Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ("Gorchymyn 2025").

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

4. Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi ystyried yn flaenorol y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Deddf Senedd y DU, Deddf Pleidleisio Absennol (Etholiadau yng Nghymru a'r Alban) 2025 ("Deddf 2025"), y bu iddi estyn pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru a'r Alban. Rhoddwyd cydsyniad deddfwriaethol i'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 2025 gan y Senedd ar 16 Medi 2025.

5. Yn unol ag adran 53(10A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("DCB 1983") ac adran 13B(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("DLlC"), mae Gweinidogion Cymru wedi cael cytundeb un o Weinidogion y Goron i wneud y darpariaethau perthnasol yn y Rheoliadau.

6. Dibynnir ar adrannau 39 a 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 i wneud yr Offerynnau Statudol Cymru (OSC) ar ffurf rheoliadau ac i wneud yr OSC o dan weithdrefn gymeradwyo'r Senedd (gweler paragraffau 14 a 15 isod i gael manylion pellach). Mae'r holl ddarpariaethau sy'n cael eu gwneud yn y Rheoliadau yn perthyn yn agos iawn i'w gilydd ac yn gweithio gyda'i gilydd.

Felly, am resymau eglurder a hygyrchedd, ystyrir ei bod yn briodol gwneud yr holl ddarpariaethau gyda'i gilydd mewn un offeryn statudol.

**Y cefndir deddfwriaethol**

7. Bu i Lywodraeth y DU gyflwyno'r system OAVA yn 2023, gan ganiatáu i bleidleiswyr yng Nghymru wneud cais ar-lein am bleidleisiau absennol yn etholiadau seneddol y DU ac mewn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Fodd bynnag, oherwydd na fu i'r Senedd gydsynio i ddarpariaethau perthnasol yn Neddf Etholiadau 2022, roedd yn ofynnol i geisiadau ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru barhau i gael eu gwneud drwy ffurflenni papur yn unig. Mae hyn wedi creu gwahaniaeth o ran y llwybrau i wneud cais ar gyfer gwahanol fathau o etholiadau, gan gynyddu'r anawsterau prosesu a dryswch pleidleiswyr.

8. Bu i Ddeddf 2025 estyn pwerau i Weinidogion Cymru a'r Alban fel bod modd i is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud i ganiatáu mynediad i'r system OAVA ar gyfer etholiadau seneddol Senedd Cymru a Senedd yr Alban ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a'r Alban.

9. Roedd angen y ddarpariaeth a wnaed gan Ddeddf 2025 am fod gwasanaeth digidol y DU, a ddefnyddir ar gyfer cofrestru pleidleiswyr, ac y bydd ceisiadau pleidleisio absennol yn cael eu cyflwyno drwyddi o dan y Rheoliadau, yn fater a gedwir yn ôl o dan DLIC.

10. Bu i Ddeddf 2025 hefyd gyflwyno cyfnod hwyaf newydd o dair blynedd ar gyfer ceisiadau parhaus i bleidleisio drwy'r post mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, gan ddisodli'r trefniant blaenorol a oedd yn caniatáu i'r hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post barhau am gyfnod amhenodol, ar yr amod bod llofnod newydd yn cael ei gyflwyno bob pum mlynedd. Bydd y darpariaethau hyn yn cymryd effaith ar 3 Tachwedd 2026; ar yr un dyddiad, bydd pleidleiswyr yn cael mynediad i'r system OAVA ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

11. Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir gan:
    a. adrannau 53(1)(c), (3) a (9)(b) a 201(3) o DCB 1983, a pharagraffau 1(2) a (5A), 3, 5ZB(1), (2) a (5), 5A(1), (3) a (4) a 13(2) o Atodlen 2 iddi;
    b. paragraffau 3(1)(b) a (2)(c), 4(1)(b) a (2)(c), 6(7) i (9) a 7B o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 ("DCB 2000"); ac
    c. adrannau 13(1)(a), (2)(a) a (4), 13B(1) a (2) a 157(2)(c) o DLIC.

12. Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol o dan DCB 1983 a DCB 2000, mewn perthynas â Chymru, i Weinidogion Cymru gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 a pharagraffau 1 a 2 o Atodlen 1 iddo.

13. Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, sy'n gymwys pan fo pleidlais absennol yn cael ei cheisio neu wedi'i cheisio mewn cysylltiad ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, a

Gorchymyn 2025, sy'n gymwys pan fo pleidlais absennol yn cael ei cheisio neu wedi'i cheisio mewn cysylltiad ag etholiadau'r Senedd.

14. Mae adran 13(1) o DLIC yn rhoi pŵer gwneud gorchymyn i Weinidogion Cymru. Mae adran 13B(1) o DLIC ac adran 53(1) o DCB 1983 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru. Mae adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu, pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau, rheolau neu orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, y cânt arfer y pŵer neu'r ddyletswydd drwy wneud yr is-ddeddfwriaeth ar unrhyw un o'r ffurfiau eraill hynny drwy offeryn statudol.

15. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. Mae adran 53(10) o DCB 1983 yn darparu y bydd gweithdrefn annilysu'r Senedd yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 53(9) o DCB 1983. Mae adran 201(2) o DCB 1983 yn darparu y bydd gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn gymwys i reoliadau eraill a wneir o dan adran 53 o DCB 1983. Mae adrannau 13(7), 13B(7) o DLIC yn darparu y bydd gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adrannau 13 a 13B o DLIC. O dan adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, caniateir cyfuno darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn yr un offeryn fel darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. O ganlyniad, mae gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn gymwys i'r Rheoliadau.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

16. Diben y ddeddfwriaeth hon yw cyflwyno'r system OAVA ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Bydd hyn yn caniatáu i bleidleiswyr wneud un cais ar gyfer yr holl etholiadau y maent yn gymwys ar eu cyfer, naill ai drwy'r post neu ar-lein.

17. Mae'r Rheoliadau hefyd yn dileu'r gofyniad i ddarparu llofnod newydd bob pum mlynedd ar gyfer etholiadau'r Senedd ac yn hytrach yn cyflwyno cyfnod hwyaf o dair blynedd ar gyfer ceisiadau i bleidleisio drwy'r post, a bryd hynny, gwahoddir pleidleiswyr i wneud cais newydd. Ar yr adeg y gwneir cais, pennir y dyddiad y bydd yr hawlogaeth i bleidleisio drwy'r post yn dod i ben ar y trydydd "31 Ionawr" ar ôl dyddiad y cais. Ar gyfer pleidleiswyr drwy'r post presennol, cyfrifir y dyddiad y bydd yr hawlogaeth yn dod i ben o'r adeg y daw'r Rheoliadau i rym. Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhoi ar waith y cyfnod hwyaf newydd o dair blynedd y gellir caniatáu ceisiadau i bleidleisio drwy'r post mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru amdano, fel y nodir yn Neddf 2025. Bydd pleidleiswyr drwy ddirprwy yn parhau i weithredu ar sail yr amserlen adnewyddu llofnod bob pum mlynedd.

18. Hysbysir ceiswyr am y dyddiad y daw eu hawlogaeth i ben pan fyddant yn gwneud cais, a byddant hefyd yn cael y gwahoddiad i wneud cais newydd ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Ni fydd dim newid i geisiadau a wneir ar gyfer dyddiad penodedig neu gyfnod o lai na thair blynedd. Bydd yr un meini prawf yn gymwys i bleidleiswyr sy'n gweithredu fel dirprwy a fyddai'n hoffi pleidleisio drwy'r post.

19. Ar hyn o bryd, nid yw ceisiadau i bleidleisio drwy'r post drwy ddirprwy yn cael eu trin a'u trafod drwy'r system OAVA. Mae Swyddogion Cofrestru'n prosesu ceisiadau ar wahân. Mae newid yn y dyfodol i ganiatáu i bleidleisiau drwy'r post drwy ddirprwy gael eu prosesu drwy'r system OAVA wrthi'n cael ei drafod â Llywodraeth y DU.

20. I sicrhau bod ceisiadau ar-lein yn cael eu diogelu rhag unrhyw fath o dwyll ar raddfa fawr, mae'r Rheoliadau hefyd yn cyflwyno gofyniad am i geiswyr am bleidlais absennol ddarparu naill ai Rif Yswiriant Gwladol neu reswm pam nad oes modd iddynt ddarparu un. Mae'r newid hwn hefyd yn gymwys i geisiadau a wneir ar bapur. Bydd hyn yn cynorthwyo Swyddogion Cofrestru i wirhau pwy yw ceisydd drwy wasanaeth digidol y DU.

21. Pan nad yw'n bosibl gwirhau pwy yw'r ceisydd, caiff y Swyddog Cofrestru ofyn am wybodaeth bellach gan y ceisydd. Byddai hon ar ffurf dogfennau adnabod eraill. Os nad yw'r Swyddog Canlyniadau yn gallu gwirhau pwy yw'r ceisydd o hyd, mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer proses ardystio.

22. Gwnaed newidiadau hefyd i egluro'r defnydd o lofnodion a hysbysiadau electronig ar draws y broses pleidleisio absennol. Mae'r rheolau wedi'u diweddaru yn darparu cyfarwyddyd ar gyfer achosion pan allai diffygion yn y gwasanaeth digidol, fel toriadau neu fethiannau, effeithio ar y dyddiadau cau ar gyfer gwneud ceisiadau. I sicrhau na fydd pleidleiswyr yn cael eu difreinio oherwydd gwall technegol, mae'r Rheoliadau'n pennu, os bydd anawsterau technegol neu doriadau gwasanaeth yn atal cais rhag cael ei brosesu'n brydlon, y caniateir i bleidleiswyr wneud cais i gael pleidlais drwy ddirprwy hyd nes 5p.m. ar ddiwrnod y pôl.

23. Sefydlwyd trefniadau trosiannol ar gyfer pleidleiswyr y mae ganddynt eisoes hawliau i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy cyn 3 Tachwedd 2026.

24. Pan wneir cais am bleidlais absennol ar gyfer etholiadau'r Senedd neu etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru cyn 3 Tachwedd 2026, ond na chaiff ei benderfynu erbyn y dyddiad hwnnw, caiff ei drin fel pe na bai wedi ei wneud, a darperir gwybodaeth am sut i wneud cais pleidleisio newydd.

25. Wrth i'r cyfnod hawlogaeth hwyaf newydd ddod i rym, mae'r trefniadau hyn yn pennu am ba hyd y bydd yr hawliau presennol yn parhau i fod yn weithredol ac yn nodi amgylchiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol hysbysu pleidleiswyr am y ffaith bod hawlogaethau'n dod i ben ac am y gweithdrefnau i wneud cais newydd.

26. Rhaid i gofnod unrhyw bleidleisiwr absennol ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol fod yn gyson â'i gofnod ar gyfer etholiadau Senedd y DU pan ganiateir mynediad i'r system OAVA ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ar 3 Tachwedd 2026. Yna, rhaid i'r cofnod barhau i fod yn gyson yn y dyfodol os yw'r ddau gofnod i barhau i fod yn y system OAVA ar yr un pryd.

27. Mae mesurau arbennig yn mynd i'r afael ag anghysondebau mewn cofnodion pleidleiswyr, fel gwahaniaethau o ran cyfeiriadau, llofnodion, neu fanylion dirprwy. Pan fo anghysondebau'n bodoli rhwng hawlogaethau pleidleisio datganoledig a chadwedig, caniateir terfynu'r hawlogaethau yr effeithir arnynt oni bai bod cofnodion yn cael eu cysoni neu fod ceisiadau newydd yn cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo. Mae'n ofynnol i swyddogion cofrestru, pa bryd bynnag y bo'n ymarferol, roi gwybod i bleidleiswyr ymlaen llaw am anghysondebau o'r fath, egluro'r angen am gysondeb, a'u llywio drwy'r camau angenrheidiol i gynnal eu hawliau pleidleisio drwy wneud cais pleidleisio absennol newydd i gywiro'r anghysondeb. Os na wneir cais newydd cyn 3 Tachwedd 2026 a bo'r anghysondeb yn parhau, bydd trefniant pleidleisio absennol y Senedd a llywodraeth leol yn cael ei ddirwyn i ben. Gan fod yr etholiadau diwethaf ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac Aelodau o Senedd y DU wedi'u cynnal yn 2024, bydd cofnodion pleidleiswyr yn fwy cyfredol o ran etholiadau cadwedig at ei gilydd.

28. Ceir crynodeb o'r effaith gyffredinol isod, gyda'r term "datganoledig" yn cael ei ddefnyddio ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru:

a) Os yw unigolyn wedi penodi'r un dirprwy dynodedig ar gyfer etholiadau datganoledig ac etholiadau Senedd y DU, bydd y dyddiad adnewyddu llofnod wedi'i ddiweddaru ar gyfer y dirprwy yn gyson â'r dyddiad adnewyddu llofnod ar gyfer pleidlais drwy ddirprwy Senedd y DU.

b) Os oes gan unigolyn hawlogaethau i bleidlais drwy'r post ar gyfer etholiadau datganoledig ac etholiadau Senedd y DU, ac nad yw'r cyfeiriadau pleidleisio drwy'r post a gofnodwyd yn gyson â'i gilydd, bydd yr hawlogaeth i bleidlais drwy'r post ddatganoledig yn dod i ben ar 3 Tachwedd 2026. Gellir datrys yr anghysondeb os yw'r pleidleisiwr yn cyflwyno cais newydd i ddiweddaru a chysoni'r cyfeiriadau a gofnodwyd cyn y dyddiad hwnnw.

c) Os oes gan unigolyn hawlogaethau i bleidlais drwy'r post ar gyfer etholiadau datganoledig ac etholiadau Senedd y DU a bod y llofnodion a gofnodwyd yn wahanol, defnyddir y llofnod sy'n gysylltiedig â'i bleidlais drwy'r post ar gyfer Senedd y DU.

d) Os oes gan unigolyn hawlogaethau i bleidlais absennol ar gyfer etholiadau datganoledig ac etholiadau Senedd y DU a bo hepgoriad llofnod yn gymwys i un o'r hawlogaethau yn unig, bydd yr hawlogaeth ddatganoledig yn dod i ben ar 3 Tachwedd 2026. Gellir datrys y gwahaniaeth os yw'r pleidleisiwr yn cyflwyno cais newydd i fynd i'r afael â'r anghysondeb cyn y dyddiad hwnnw.

e) Os oes gan unigolyn hawlogaethau i bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer etholiadau datganoledig ac etholiadau Senedd y DU, a bo enwau neu gyfeiriadau'r dirprwy yn y cofnodion penodi yn wahanol, bydd yr hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy ddatganoledig yn dod i ben ar 3 Tachwedd 2026. Gellir datrys yr anghysondeb os yw'r pleidleisiwr yn

cyflwyno cais newydd i fynd i'r afael â'r anghysondeb cyn y dyddiad hwnnw.

f) Os oes gan unigolyn hawlogaeth i bleidlais drwy'r post ddatganoledig a hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer Senedd y DU, bydd yr hawlogaeth i bleidlais drwy'r post ddatganoledig yn dod i ben ar 3 Tachwedd 2026. Gellir datrys yr anghysondeb os yw'r pleidleisiwr yn cyflwyno cais newydd i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth cyn y dyddiad hwnnw.

g) Os oes gan unigolyn hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy ddatganoledig a hawlogaeth i bleidlais drwy'r post ar gyfer Senedd y DU, bydd yr hawlogaeth i bleidlais drwy ddirprwy ddatganoledig yn dod i ben ar 3 Tachwedd 2026. Gellir datrys yr anghysondeb os yw'r pleidleisiwr yn cyflwyno cais newydd i fynd i'r afael â'r anghysondeb cyn y dyddiad hwnnw.

h) Os oes gan unigolyn hawlogaeth i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig a hawlogaeth i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ar gyfer Senedd y DU ar gyfer yr un etholwr, bydd yr hawlogaeth i bleidlais drwy'r post drwy ddirprwy ddatganoledig yn dod i ben ar 3 Tachwedd 2026. Bydd y Swyddog Cofrestru'n hysbysu'r unigolyn ac yn darparu canllawiau ar sut i wneud cais newydd.

29. Yn ogystal â newidiadau penodol i bleidleisiau drwy'r post a thrwy ddirprwy, gwnaed nifer o ddiwygiadau amrywiol i wella'r gwaith o weinyddu etholiadau'r Senedd.

30. Mae'r rheolau diwygiedig yn egluro'r llinell amser ar gyfer talu treuliau etholiad, gan bennu bod rhaid gwneud taliadau o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y datgenir canlyniadau'r etholiad.

31. At hynny, cafodd darpariaeth yn ymwneud â darparu papurau pleidleisio drwy'r post newydd yn lle rhai a ddifethwyd ei diwygio, gan bennu nad yw'n ofynnol i swyddogion canlyniadau ddyroddi papurau pleidleisio drwy'r post newydd ar gyfer dogfennau sy'n dod i law ar ôl 5:00p.m. ar ddiwrnod y pôl.

32. Gwnaed mân newidiadau hefyd i reolau etholiadau'r Senedd ac i'r gofynion i adrodd am roddion: caiff rhoddion i ymgeiswyr unigol o lai na £500 eu diystyru bellach at ddibenion adrodd swyddogol, tra nad yw ond yn ofynnol adrodd am roddion gan roddwyr a ganiateir os ydynt yn fwy na £500. Mae'r terfynau hyn bellach yn gyson â'r rheol y gellir diystyru rhoddion o lai na £500 a pheidio â'u trin fel rhoddion perthnasol.

## Ymgynghori

*Dyletswydd i ymgynghori*

33. Yn unol ag adran 7(1) a (2)(e) ac (f) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, cyn gwneud rheoliadau o dan DCB 1983 y mae

gan adran 201(2) o DCB 1983 effaith mewn perthynas â hwy neu orchymyn o dan adran 31 o DLIC, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol ("CE").

*Ymgynghori ffurfiol*

34. Er nad yw'r Rheoliadau hyn wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynigion polisi a'r darpariaethau o ran cyflwyno'r system OAVA ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru drwy'r Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol.

35. Mae'r polisi ehangach o ran rhoi'r system OAVA ar waith hefyd wedi bod yn destun ymgynghoriad ledled y DU ar gyfer Deddf Etholiadau 2022. At hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar estyn y system i Gymru a'r Alban rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Ionawr 2025, mewn perthynas â Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol arfaethedig i ganiatáu i geisiadau ar gyfer trefniadau pleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru gael eu gwneud ar-lein, a daeth ymatebion cadarnhaol i law.

36. Cynhaliwyd ymgynghoriad technegol byr ar y Rheoliadau gyda'r CE o 18 Rhagfyr tan 20 Ionawr. Yn gyffredinol, roedd y CE yn cefnogi cyflwyno'r system OAVA ar gyfer etholiadau Cymru, ond gofynnodd am eglurhad o rai pwyntiau. Awgrymodd y gallai dyddiad gweithredu hwyrach fod yn well i sicrhau bod canllawiau priodol ar gael, ac ystyriwyd hyn pan ddewiswyd 3 Tachwedd 2026 fel dyddiad gweithredu. Cafodd y Rheoliadau eu diweddaru i adlewyrchu sylwadau ac awgrymiadau'r CE, a bydd cydgysylltu pellach yn parhau o ran y camau i roi'r system ar waith.

37. Ymgynghorwyd hefyd â'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch newidiadau sy'n berthnasol i brosesu data personol, fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 36(4) a Chronicliad 96 o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data.

*Ymgynghori ffurfiol*

38. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgynghori â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban, ac, ochr yn ochr â Llywodraeth yr Alban, bu'n cydweithio'n agos â Gweinyddwyr Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a'r CE ledled Cymru a'r Alban yn ystod y broses o lunio'r Rheoliadau hyn.

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Costau a manteision

39. Cyflwynir tri opsiwn er cymhariaeth:
    a. Cadw'r *status quo.*
    b. Rhoi system OAVA ar waith gan ddefnyddio Gwasanaeth Digidol y DU.
    c. Rhoi system OAVA ar waith gan ddefnyddio gwasanaeth digidol Cymru yn unig.

*Costau – Status quo*

40. Pan fu i reoliadau o dan Ddeddf Etholiadau 2022 gyflwyno'r system OAVA ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, bu iddo greu gwahaniad yng nghofnod pleidleisio absennol pleidleisiwr. Yn flaenorol, roedd un cofnod pleidleisio absennol yn cael ei gadw ar gyfer pob pleidleisiwr ac roedd yn gymwys i unrhyw etholiad yr oedd gan y pleidleisiwr hawlogaeth ar ei gyfer. Yn sgil cyflwyno llwybr ymgeisio ar-lein a phroses gwirhau pwy yw'r ceisydd na fyddai ond yn gymwys i rai etholiadau, roedd yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru gynnal cofnodion datganoledig a chofnodion cadwedig ar wahân ar gyfer pob etholwr.

41. Mae'r gwahaniaeth presennol o ran prosesau gwneud ceisiadau a'r gwaith o gynnal cofnodion pleidleisio absennol ar wahân yn rhoi baich gweinyddol sylweddol ar Swyddogion Cofrestru. Mae timau etholiadol ledled Cymru wedi mynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn gwahanol ffyrdd, gyda rhai'n gofyn i bleidleiswyr wneud cais ar gyfer pob math o etholiad ar wahân tra mae eraill yn anfon ffurflen gyfun a fydd yn berthnasol i bob etholiad y mae pleidleisiwr yn gymwys ar ei gyfer.

42. Yn y naill achos a'r llall, mae hyn yn dyblygu ymdrechion Swyddogion Cofrestru yn sylweddol, gan eu bod naill ai'n prosesu dau gais neilltuol neu'n prosesu'r un cais ddwywaith drwy wahanol brosesau. Yna, mae'r dyblygu hwn yn cael ei ailadrodd bob tair blynedd pan fydd yn ofynnol i bleidleisiwr wneud cais newydd.

43. Yn ogystal â'r baich gweinyddol, ceir risg sylweddol o ddryswch ymhlith y cyhoedd. Yn ôl Swyddogion Cofrestru, mae llawer o aelodau o'r cyhoedd yn ei chael yn anodd deall bod dwy broses ar wahân, pam fod rhaid iddynt wneud cais ddwywaith, a'r gwahaniaethau rhwng yr etholiadau y maent yn gwneud cais ar eu cyfer. Nid yw hyn yn bodloni ein hegwyddorion diwygio etholiadol, sef symlrwydd, hygyrchedd, a gwella profiad dinasyddion.

44. Mae'r dryswch o ran y gwahaniaeth presennol yn cynyddu'r siawns y gall nad oes gan bleidleisiwr y trefniant pleidleisio absennol y mae'n disgwyl ei gael cyn etholiad. Mae hynny'n cynyddu'r siawns y bydd yn colli ei gyfle i bleidleisio yn yr etholiad hwnnw.

45. Mae darparwyr Systemau Rheoli Etholiadau ("SRhE") hefyd wedi tynnu sylw at y costau cynyddol sydd ynghlwm wrth gynnal y cofnodion pleidleisio absennol neilltuol hyn ac y bydd angen trosglwyddo'r costau hyn i'r awdurdodau lleol sy'n gwsmeriaid iddynt yn y tymor hir.

*Manteision – Status quo*

46. Byddai gwneud dim newidiadau yn osgoi unrhyw rai o'r costau neu'r tarfu uniongyrchol a fyddai'n digwydd o ran rhoi'r opsiynau eraill sy'n cael eu hystyried ar waith.

*Costau – Rhoi system OAVA ar waith*

47. I roi ar waith y camau i gyflwyno'r system OAVA ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, bydd angen ailintegreiddio'r cofnodion pleidleisio absennol hyn, fel y bydd pob pleidleisiwr yn dychwelyd at sefyllfa lle y mae ganddo un cofnod pleidleisio absennol. I wneud hyn, bydd gofyn i'r cyflenwyr SRhE ddatblygu system i baru data er mwyn nodi'r gwahaniaethau rhwng y cofnodion, rhoi gwybod i'r Swyddogion Cofrestru amdanynt, a chreu dull o'u hailintegreiddio pan gyflwynir y system.

48. Mae tri chyflenwr SRhE yn gweithredu yng Nghymru a byddai angen i bob un ohonynt gyflawni'r un newidiadau. Mae'r un addasiadau hefyd yn cael eu cyflawni yn yr Alban ac, i'r perwyl hwnnw, cafodd y costau hyn eu rhannu â Llywodraeth yr Alban. Bydd hyn yn arwain at gost untro yr amcangyfrifir y bydd oddeutu £1 miliwn ar gyfer y naill Lywodraeth a'r llall.

49. Bydd y gwaith ailintegreiddio hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru ddefnyddio'r swyddogaeth paru data i gywiro a diweddaru cofnodion pleidleiswyr cyn y dyddiad gweithredu. Yn y cam cyntaf, bydd yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru gywiro mân wallau ac anghysondebau data, fel mân wahaniaethau yn y ffordd y mae cyfeiriadau'n ymddangos (fel y Saesneg "road" neu "rd"). Bydd yr ail gam yn digwydd yn yr wythnosau cyn y dyddiad gweithredu a bydd gofyn i Swyddogion Cofrestru gysylltu â phleidleiswyr â chofnodion sy'n cynnwys gwahanol fathau o bleidleisiau absennol neu wahanol hoff ddewisiadau. Gofynnir i'r pleidleiswyr hyn wneud cais newydd i ddiweddaru eu cofnodion cyn y dyddiad gweithredu.

50. Os nad oes modd iddynt wneud hynny, bydd angen i'r Swyddog Cofrestru gysylltu â hwy eto i roi gwybod iddynt fod eu cofnod pleidleisio absennol wedi'i newid neu'i ddileu, a bydd yn argymell eu bod yn gwneud cais newydd i ddiweddaru eu hoff ddewisiadau. O allosod ar sail amcangyfrifon cyfredol, rydym yn disgwyl y bydd gan lai na 1,000 o bleidleiswyr ledled Cymru wallau neu anghysondebau data y bydd angen iddynt gael eu cywiro gan Swyddogion Cofrestru ac y bydd angen cysylltu â chyfran lai o'r pleidleiswyr hynny. O gynnwys llythyrau atgoffa a llythyrau diweddaru posibl, byddem yn disgwyl y byddai cyfanswm y costau post i awdurdodau lleol Cymru oddeutu £5,000, a byddai'r swm hwn yn cael ei ad-dalu gan Lywodraeth Cymru fel y bo'n briodol.

51. Mae timau etholiadau ar draws pob awdurdod lleol yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol ac felly bydd amrywiadau o ran faint o bleidleiswyr y bydd angen i bob tîm gysylltu â hwy. Yn ystod y cyfnod cyn y dyddiad gweithredu, byddai angen i Swyddogion Cofrestru neilltuo amser i brosesu llythyrau a anfonir o'r SRhE, ymateb i ymholiadau a phrosesu ceisiadau sy'n dod i law. Yn ystod y broses weithredu, gall fod angen i Swyddogion Cofrestru drin a thrafod gwallau yn y data neu'r broses integreiddio.

*Manteision – Rhoi system OAVA ar waith*

52. Ceir awydd cryf i allu gwneud cais am bleidlais absennol ar-lein. Rhwng mis Hydref 2023 a mis Ionawr 2026, y cyfartaledd misol ar gyfer ceisiadau ar-lein o'u cymharu â ffurflenni papur yn y DU oedd 61%. Cyn Etholiad Cyffredinol y DU, cynyddodd cyfran y ceisiadau ar-lein i 90% (Mai 2024). Drwy wneud cais ar-lein, mae pleidleiswyr yn cael cadarnhad ar unwaith fod eu cais wedi dod i law, ac mae'n lleihau'r costau post. Yn ogystal, mae'r awdurdodau lleol yn arbed amser ac arian yn ymateb i geisiadau am ffurflenni cais i bleidleisio drwy'r post.

53. Fel yr amlinellwyd eisoes, mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru brosesu pob cais am bleidlais absennol ddwywaith ar hyn o bryd. Rhwng mis Awst 2025 a mis Ionawr 2026, gwnaed dros 100,000 o geisiadau am bleidlais drwy'r post yng Nghymru, ac mae prosesu pob un o'r ceisiadau hyn ddwywaith yn gyfystyr â baich gweinyddol sylweddol ar dimau etholiadol. Mae dyblygu prosesau hefyd yn cynyddu'r risgiau o anghysondebau data. O gyflwyno'r system OAVA bresennol i etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, ni fydd ond angen i Swyddogion Cofrestru brosesu pob cais unwaith.

54. Yn ogystal â'r baich gweinyddol, ceir risg sylweddol o ddryswch ymhlith y cyhoedd. Yn ôl Swyddogion Cofrestru, mae llawer o aelodau o'r cyhoedd yn ei chael yn anodd deall bod dwy broses ar wahân, pam fod rhaid iddynt wneud cais ddwywaith, a'r gwahaniaethau rhwng yr etholiadau y maent yn gwneud cais ar eu cyfer.

55. Mae'r dryswch o ran y gwahaniaeth presennol yn cynyddu'r siawns y gall nad oes gan bleidleisiwr y trefniant pleidleisio absennol y mae'n disgwyl ei gael cyn etholiad. Mae hynny'n cynyddu'r siawns y bydd yn colli ei gyfle i bleidleisio yn yr etholiad hwnnw.

56. O gael un broses o wneud cais ar draws holl etholiadau Cymru, byddai hefyd yn symleiddio'n fawr y broses o wneud cais ar gyfer y cyhoedd. Bydd modd i aelodau o'r cyhoedd wneud cais ar gyfer eu holl etholiadau cymwys mewn un cais. Yn ogystal, byddai'n dileu'r dryswch ymhlith pleidleiswyr o gael gwahanol weithdrefnau pleidleisio ar gyfer gwahanol etholiadau, gan osgoi'r posibilrwydd y gall dryswch o'r fath arwain at sefyllfa lle nad oes modd i bleidleisiwr bleidleisio mewn unrhyw etholiad penodol am nad oes ganddo'r trefniant yr oedd wedi ei ddisgwyl.

*Costau – System Cymru yn unig*

57. Byddai angen datblygu system ymgeisio ar-lein ar wahân. Er na allai gael yr un swyddogaethedd â system y DU, byddai angen iddi, o leiaf, allu prosesu holl geisiadau pleidleisio absennol Cymru, darparu dull o wirhau pwy yw'r ceisydd, a darparu proses ardystio. Mae system bresennol y DU yn gallu cael mynediad at ddata o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n debygol na fyddai system Cymru yn unig ond yn gallu dibynnu ar baru data lleol. Byddai disgwyl i'r costau cychwynnol i ddatblygu meddalwedd a system, ar sail systemau tebyg, fod yn fwy na £6 miliwn. Ni fyddai hyn yn cynnwys costau ychwanegol, fel costau'r Gwasanaeth Sifil, costau seilwaith a chostau ychwanegol y byddai awdurdodau lleol yn mynd iddynt.

58. Byddai datblygu system Cymru yn unig yn dal i arwain at gostau tebyg i'r rheini sydd ynghlwm wrth gyflwyno'r system OAVA bresennol o ran newidiadau i'r darparwyr SRhE. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, ni fyddai'r costau'n cael eu rhannu â Llywodraeth yr Alban, felly byddai'r gost untro ar gyfer gwneud y newidiadau o fewn y SRhE oddeutu £2 filiwn.

59. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol darparu hyfforddiant rhagarweiniol ar y system newydd a'r prosesau gofynnol ar gyfer staff awdurdodau lleol.

60. Yn ogystal â'r costau ychwanegol hyn, ni fyddai datblygu system ar wahân yn lleddfu llawer o'r problemau a godwyd uchod ar gyfer yr opsiwn *"status quo*". Byddai'n dal i fod angen i Swyddogion Cofrestru brosesu dau gais ar wahân ar gyfer pob pleidleisiwr a byddai pleidleiswyr yn dal i fod wedi'u drysu gan y gwahanol brosesau ar gyfer gwahanol etholiadau.

*Manteision – System Cymru yn unig*

61. Byddai system ar wahân ar gyfer Cymru yn darparu'r un fantais i bleidleiswyr o ran hwylustod mynediad, hyder bod eu cais wedi dod i law, ac arbed costau post. Gall awdurdodau lleol hefyd weld eu costau post yn gostwng am fod llai o geisiadau am ffurflenni cais papur.

62. Gall system ar wahân hefyd fod yn fwy hyblyg o ran materion sy'n benodol i Gymru neu unrhyw newidiadau y gall fod angen eu gwneud yn y dyfodol.

## 7. Asesiad cystadleuaeth

63. Nid yw asesiad cystadleuaeth yn gymwys o dan yr amgylchiadau hyn.

## 8. Adolygu ar ôl gweithredu

64. Mae'r system OAVA bresennol yn cynnwys dangosfwrdd perfformiad cynhwysfawr sydd ar gael i'r cyhoedd ei weld. Bydd hyn yn sicrhau bod modd monitro perfformiad y system yn rheolaidd. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i weithio gyda Swyddogion Cofrestru, Cymdeithas y Gweinyddwyr

Etholiadol a’r Comisiwn Etholiadol i sicrhau bod y system yn gweithredu yn ôl y bwriad.